**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**5 MEDI 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 5 Medi 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Sam Swash (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Mel Buckley, Tina Claydon, Carol Ellis, Gladys Healey, Andy Hughes, Fran Lister, Dave Mackie, Roz Mansell, Billy Mullin, Debbie Owen ac Arnold Woolley |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd: Hilary McGuill |
| **YMDDIHEURIAD:** | Y Cynghorydd: Andy Hughes |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorydd Bill Crease (ar ran Carol Ellis) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch Reolwr – Diogelu a Chomisiynu; Rheolwr Comisiynu; Swyddog Cwynion; Swyddog Cynllunio a Datblygu a'r Uwch Reolwr Plant |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm |

**19. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**20. COFNODION (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynwyd Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024, 6 Mehefin 2024, 18 Gorffennaf 2024 a chofnodion cyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2024 i'w cymeradwyo.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie am eglurhad ar gyfer y paragraff olaf ond un ar dudalen 6 cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Chwefror a bod y geiriad canlynol yn cael ei gynnwys i ddisodli'r paragraff presennol.

'Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth gyd-destun y gair heriol yn yr adroddiad mewn perthynas â'r 16 gwely yn Marleyfield ar gyfer rhyddhau'n uniongyrchol o'r ysbyty. Eglurodd ei bod yn anochel y gallai ffurfio partneriaeth gydag ysbytai achosi pwysau gan yr ysbytai ar y rheolwr yn Marleyfield pan oeddent yn ymwybodol fod gwelyau ar gael. Ychwanegodd eu bod dros y misoedd diwethaf wedi bod yn gweithredu yn gyson gyda 14 i 15 o welyau'n cael eu defnyddio.'

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie bod cyfeiriad yn cael ei gynnwys yng nghofnodion y cyfarfod ar 18 Gorffennaf 2024 at yr Atodiad sydd ynghlwm ar

dudalen 23, a bod y canlynol yn cael ei ychwanegu at ail baragraff pwynt 16 (Codi Tâl ar gyfer Penodeiaeth) - Atodiad 3.

**PENDERFYNWYD:**
Yn amodol ar y diwygiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion ar 29 Chwefror, 6 Mehefin, 27 Mehefin a 18 Gorffennaf fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 21. RHAGLEN WAITH AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Waith gyfredol a'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu i'w hystyried, a oedd yn cynnwys diweddariad ar gamau gweithredu oedd i'w cwblhau.

Cytunwyd ar ddiwedd y cyfarfod ar 24 Hydref y byddai sesiwn hyfforddiant ar Ymweliadau Rota yn cael ei gynnal i Aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnwyd bod y wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad Ail-gomisiynu Gwasanaethau Gofalwyr ar 24 Mawrth 2025.

Byddai sesiwn friffio i'r Aelodau ar Blant sy'n Derbyn Gofal a Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn cael ei gynnal am 1pm ar 8 Tachwedd.

Roedd Ymweliad Climbie yn y broses o gael ei drefnu yn ystod mis Hydref i Aelodau'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 22. SYLWADAU, CANMOLIAETHAU A CHWYNION (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Swyddog Cwynion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad ar y weithdrefn Gwynion a Chanmoliaethau 2023-24.

Cafodd fersiwn ddiwygiedig o Atodiad 3 ei gylchredeg i'r Pwyllgor.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr Aelodau'n craffu ar effeithiolrwydd y weithdrefn gwynion a bod gwersi'n cael eu dysgu i wella darpariaeth y gwasanaeth.

**23. PROSIECTAU MEICRO-OFAL SIR Y FFLINT** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu adroddiad ar y sefyllfa Meicro-Ofal yn Sir y Fflint, rhai o'r llwyddiannau allweddol dros y 18 mis diwethaf, a chyfeiriad y prosiect ar gyfer y dyfodol.

Roedd dadansoddiad o'r Lleoliadau Meicro-Ofal yn mynd i gael ei ddarparu.

Mewn ymateb i awgrym, cytunwyd y byddai codi ymwybyddiaeth o Meicro-Ofal yn cael ei wneud wedi'i dargedu at feddygfeydd.

Cafodd yr argymhellion eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau yn cefnogi'r cynnydd a wnaed yn y prosiect Meicro-Ofal a'r cyfraniad y mae'r cynllun yn ei wneud i fodloni'r galw am ofal yn Sir y Fflint; a

(b) Bod yr Aelodau yn hapus gyda chyfeiriad y prosiect, y dull arloesol a bod yr Aelodau yn cefnogi datblygiad pellach y prosiect wrth symud ymlaen.

**24. ADOLYGIAD O'R SECTOR GOFAL PRESWYL 2024-2034** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Comisiynu adroddiad a oedd yn rhoi man cychwyn ar gyfer cynnal trafodaeth ar sut oedd y Cyngor yn parhau i ymateb i'r heriau a'r galwadau cynyddol ar y sector.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddadansoddiad o'r 36 miliwn y byddai Tŷ Croes Atti yn ei ddarparu mewn buddion i'r ardal y mae'r Uwch Reolwr, Diogelu a Chomisiynu yn cytuno i'w ddarparu.

Diwygiwyd yr argymhelliad i adlewyrchu'r drafodaeth hon.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau yn cefnogi'r camau gweithredu sydd eu hangen i liniaru'r diffyg a ragwelir yn Sir y Fflint;

(b) Bod yr Aelodau yn ystyried ffyrdd o ddylanwadu ar y farchnad annibynnol er mwyn ateb y galw cynyddol, gan roi ystyriaeth i'r cynigion yn Rhaglen Ailgydbwyso Gofal Llywodraeth Cymru; a

(c) Bod yr Aelodau yn cydnabod y cynnydd a wnaed ar ddatblygu Tŷ Croes Atti.

**25. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 I GYNNWYS ADRODDIAD PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2023/24** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad sy'n nodi dadansoddiad a chrynodeb, a welir yn Atodiad 2 o berfformiad y Cyngor

yn erbyn Amcanion Lles, Blaenoriaethau ac Is-flaenoriaethau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 Cynllun y Cyngor (2023-28). Roedd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yn darparu crynodeb o berfformiad hefyd, mewn perthynas â meysydd ffocws allweddol eraill y Cyngor, h.y. Gweithgarwch Partneriaeth a Chydweithio, yn ogystal â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24, ar y cyd ag Adroddiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn Cynllun y Cyngor 2023/24, gan nodi'r perfformiad a gyflawnwyd.

## 26. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.47pm)

…………………………………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd eu gwe-ddarlledu, ac mae modd eu gwylio drwy fynd i'r llyfrgell gwe-ddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home